

OEDFAON YR HAF

DYDD SUL, AWST 4^{YDD}	<ul style="list-style-type: none">➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00.➤ Cynhelir Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghapel Seion, Heol yr Orsaf, Llanrwst am 10.00. Gwneir casgliad er budd Cymorth Cristnogol.
DYDD SUL, AWST 11^{EG}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 ac yn Llansannan am 11.00.➤ Bydd Mr Cynan Llwyd yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 ac yn Llanefydd am 11.00.➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.
DYDD SUL, AWST 18^{FED}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd y Parch. Robert O. Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11.00.➤ Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn Saron am 9.30 (sylwch ar yr amser) ac yng Nghefn Berain am 11.00.
DYDD SUL, AWST 25^{AIN}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 ac yn Llansannan am 11.00.➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Llanefydd am 9.30 ac yn Henllan am 11.00.
DYDD SUL, MEDI 1^{AF}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bore Bro Aled yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb i ddilyn yr oedfa.
DYDD SUL, MEDI 8^{FED}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yno am 11.00.➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.➤ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa hefyd yn Nantglyn am 2.00.➤ Bydd Oedfa'r Fro yn cael ei chynnal yn Llansannan am 6.00.

SYLWER

Cyhoeddor y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 1^{af} (cyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Awst 28^{ain}, os gwelwch yn dda. **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Rhodri neu Mair.**

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Gorffennaf 21^{ain} a 28^{ain}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

“O'r diwedd!” – ochenaid gyfarwydd gan athrawon a disgyblion ysgol ar hyd a lled Cymru wrth i flwyddyn ysgol arall ddod i ben! Ac oherwydd hynny, edrychwn ymlaen at amrywiol weithgareddau'r haf o sioeau lleol, i'r Sioe Fawr ac i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Dyma gyfle felly i mi ddymuno'r gorau i bawb ohonoch fydd yn cystadlu neu'n cyfrannu at y digwyddiadau yma mewn unrhyw ffordd dros yr wythnosau nesaf.

Ddydd Sadwrn Gorffennaf 20fed, byddwn yn cofio hanner can mlynedd ers i bobl lanio ar y lleud am y tro cyntaf. Datblygodd technoleg yn syfrdanol ers y cyfnod cyffrous ar ddiwedd y 1960au, ond mae'n dal i fod yn anodd credu i'r fath beth ddigwydd, a bod y tri gŵr wedi dychwelyd yn ddiogel i'r ddaear yn fyw ac yn iach. Dyma un o'r digwyddiadau a gafodd fwyaf o sylw yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac eto mae'n debyg bod *conspiracy theories* ynglŷn â'r glaniad yn parhau hyd heddiw gydag un arolwg diweddar yn honni bod 16% o bobl Prydain yn gwrthod credu i ddyn lanio ar y lleud!

O ystyried beth mae'r Beibl yn ei ddweud am ein natur fel pobl, nid yw hyn yn syndod o gwbl. Rydym yn gwybod o'r hanesion am weinidogaeth Iesu bod rhai pobl yn dangos ffydd ac eraill yn amharod i gredu pob math o dystiolaeth digon amlwg. Ac felly y parhaodd pethau wrth i Gristnogaeth ledaenu. Mae Actau 4 yn enghraifft wych i ni o'r awdurdodau crefyddol yn delio â dyn cloff o'i enedigaeth wedi'i iachau. Cafodd Pedr ac Ioan eu rhoi mewn dalfa a phan gafodd gyfle, esboniodd Pedr iddynt mai trwy awdurdod Iesu o Nasareth y digwyddodd yr iachâd, ac mai Iesu yw'r unig un sy'n gallu achub pobl (Actau 4:12). Dyma ymateb yr awdurdodau:

“Beth wnawn ni â'r dynion yma?” medden nhw. “Mae pawb yn Jerwsalem yn gwybod eu bod wedi cyflawni gwrth anhygoel, a dyn ni ddim yn gallu gwadu hynny. Ond mae'n rhaid stopio hyn rhag mynd ymhellach. Rhaid i ni eu rhybuddio nhw i beidio dysgu am yr Iesu yma byth eto.” (Actau 4:16-17)

Er gwaetha'r bygythiad difrifol i beidio dweud dim mwy am Iesu, mynnodd Pedr ac Ioan na allent aros yn dawel: “Beth fyddai Duw am i ni ei wneud? Penderfynwch chi – gwrando arnoch chi, neu ufuddhau iddo fe? Allwn ni ddim stopio sôn am y pethau dyn ni wedi'u gweld a'u clywed.” (Actau 4:19-20)

A dyna'r alwad i Gristnigion ym mhob oes – bod fel yr Apostolion yn dystion i Grist trwy sôn am yr hyn a wnaeth Iesu trwy ei farw a'i atgyfodiad, a'r ffaith y gall credinwyr ddod i'w adnabod Ef heddiw. Gweddiwn ar i Dduw roi cyfleoedd i ni sôn am Iesu dros yr haf, ac y daw eraill trwy gredu yn Iesu i brofi'r Duw byw drostynt eu hunain.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 21^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Ni fydd **Oedfa'r Fro** yn cael ei chynnal nos Sul olaf mis Gorffennaf.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi am 11.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog **am 10.30** (sylwch ar yr amser) ac yn Llanfair am 11.00.
- Bydd Rhodri yn arwain Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Meirick Ll. Davies, yng Nghapel Cefn Meiriadog am 2.00.
-
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Bydd Mr Dafydd Picton Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac yn Llanfair am 11.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 ac yn Llanefydd am 11.00.
-
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Cyfarfod Gweddi hefyd yn Henllan am 9.30 ac yn Groes am 11.00.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 21^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
-
- Sul nesaf – 28^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (Awst 28^{ain}), os gwelwch yn dda.

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Cyflwynwn bawb sy'n galaru am anwyliaid yn dyner i ofal Duw a gweddiwn eu bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau anodd hyn.

Anfonwn ein cofion at Bessie Owens (Cefn Berain) a Bob Edwards (Groes) sy'n parhau i gael gofal yn yr ysbyty. Cofiw'n yn ein gweddiâu hefyd am Morfudd Williams (Henllan) sydd wedi bod yn bur wael y dyddiau diwethaf hyn. Diolchwn amdani a gweddiwn ei bod yn adnabod cariad Duw yn ei hamgylchynnu.

Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw gan weddiö y bydd pob un ohonynt yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Llongyfarchiadau i Iorwen Roberts (Llansannan) a Mair Davies (Llansannan) sydd yn dathlu penblwydd arbennig y mis hwn.

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Teleri Lloyd (Llansannan) fydd yn priodi dechrau mis Awst ac i Elen Roberts (Llansannan) fydd yn priodi ganol y mis. Gweddiwn y bydd y ddau gwpl yn cael diwrnod cofiadwy a dymunwn fendithion lu iddynt yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Lloyd a Heulwen Edwards (Groes) fydd yn dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol dechrau mis Awst.

I ddod

➤ RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:

⇒ **Cwrs Ieuenticid (i flynyddoedd 7 – 11):** Gorffennaf 29ain – Awst 2il

⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 12fed – 15fed

⇒ **Souled Out (15+):** Awst 17eg – 22ain

Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.

➤ **CYFARFOD GWEDDI I'R FRO** yn Groes nos Fercher, Medi 4ydd am 7.30.

➤ **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd nos Iau, Medi 12fed am 7.00.

➤ **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL A'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 14eg yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, am 2.00.